

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022.

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

8 Ebrill 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022 ("yr offeryn").

Mae'r offeryn hwn yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i awdurdodi defnyddio prawf gwrthgyrff *titre* ychwanegol i brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru. Bydd caniatáu defnyddio prawf ychwanegol yn cyflymu'n sylweddol y broses o brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru, ar adeg pan fydd y system yn ymdrin ag ôl-groniad sylweddol oherwydd bod pobl sy'n dianc o'r Wcráin yn dod â'u hanifeiliaid anwes i mewn. Bydd hyn yn lleihau'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantín ac yn galluogi pobl i gael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth hefyd ddiogelu bioddiogelwch Prydain Fawr. Bydd effaith yr offeryn yn dod i ben chwe mis ar ôl iddo ddod i rym.

Mae'n ofynnol i'r offeryn sicrhau cysondeb â newidiadau cyfatebol a wnaed gan Lywodraethau'r DU a'r Alban i Reoliad a ddargedwir (UE) 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 12 Mehefin 2013.

Mae'r offeryn yn berthnasol i Gymru a bydd yn dod i rym ar 9 Ebrill 2022, ac yn dod i ben ar 1 Hydref 2022.

2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â phrinder lleoedd cwarantín i gadw anifeiliaid anwes sy'n dod gyda phobl sy'n ffoi o Wcráin. Bydd yr OS hwn yn dod i rym ar 9 Ebrill 2022 i fynd i'r afael ar frys â'r diffyg disgwylidig yn y capasiti ar gyfer cadw anifeiliaid anwes mewn cwarantín o ddechrau mis Ebrill 2022, ac i alluogi profion amgen i gael eu cynnal ar unwaith i atal ôl-groniad sylweddol rhag datblygu. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbysir y Llywydd y bydd yr offeryn yn dod i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan Erthygl 38 o Reoliad (UE) Rhif 576/2013 ("y Rheoliad Symud Anifeiliaid Anwes") sy'n rhan o lyfr statud y DU fel deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gwnaeth Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a

Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ddiwygiadau i'r deddfwriaeth hon a deddfwriaeth uniongyrchol arall yr UE a ddargedwir, a oedd yn cynnwys trosglwyddo pŵer y Comisiwn i ddiwygio Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 yn Erthygl 38 i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Nid yw Wcráin wedi'i rhestru o dan y Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes, sy'n golygu bod rhai anifeiliaid anwes (cŵn, cathod a ffuredau) yn ddarostyngedig i ofynion caeth i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phobl yn y wlad hon. Y gofynion presennol ar gyfer anifeiliaid yn Wcráin yw y dylent:

- gael eu brechu pan fyddant yn 12 wythnos oed,
- pasio prawf gwrthgyrff *titre* am y gynddaredd 30 diwrnod yn ddiweddarach i ddangos bod y brechu wedi bod yn llwyddiannus,
- peidio â symud i Brydain Fawr tan o leiaf tri mis ar ôl prawf gwaed llwyddiannus.

O dan amgylchiadau arferol, bydd y rhai sy'n teithio o wledydd heb eu rhestru wedi cymryd y camau angenrheidiol i frechu eu hanifeiliaid cyn teithio, ac yn sicrhau bod ganddynt y dogfennau angenrheidiol wrth gyrraedd Prydain Fawr.

Os nad yw anifeiliaid anwes o Wcráin neu wledydd eraill sydd heb eu rhestru yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd anifeiliaid o dan y Rheoliad Symud Anifeiliaid Anwes, mae'n bosibl y caniateir iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy drwydded a roddir o dan erthygl 4 o Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974, ac mae'n ofynnol iddynt gael eu hynysu mewn cwarantin nes bod y gofynion iechyd anifeiliaid hyn yn cael eu bodloni, sy'n cynnwys profi'r anifeiliaid am wrthgyrff y gynddaredd.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd y gallai dros 100,000 o bobl sy'n ffoi o Wcráin ddod â rhwng 1,000 a 2,000 o anifeiliaid anwes i Brydain Fawr, ond mae llai na 150 o leoedd cwarantin ar gael. Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y bydd 10,000 o ffoaduriaid yn dod i Gymru, felly gyda ffigur tebyg o 1–2% yn dod ag anifeiliaid anwes gyda nhw, byddai hyn yn golygu tua 100 – 200 o anifeiliaid anwes yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi cryn straen ar y cyfleusterau cwarantin presennol gan ei bod yn annhebygol y bydd y rhan fwyaf o'r bobl hynny'n dod â dogfennau perthnasol gyda nhw. Gallai hyn fod yn broblem i berchnogion sydd wedi pasio eu gwiriadau fisa a gwiriadau y ffin ac sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i Brydain Fawr. Mae'r Rheoliadau yn un ateb o fewn pecyn ehangach o fesurau i ehangu capasiti cwarantin ledled Prydain. Dylid nodi bod Gogledd Iwerddon

wedi'i rhwymo o dan delerau Deddf Ymadael yr UE i barhau i ddilyn rheolau'r Undeb Ewropeaidd ar brofion, ac felly nid ydynt yn gweithredu'r newid hwn.

Ar hyn o bryd nid yw prawf ELISA yn bodloni'r gofynion a nodir yn Atodiad 4 i'r Rheoliad Symud Anifeiliaid Anwes.

Rwyf wedi gwneud yr Offeryn Statudol (OS) hwn ar frys i wneud newidiadau dros dro sy'n angenrheidiol i alluogi defnyddiom prawf ELISA fel dewis amgen i'r math presennol o brawf gwrthgyrff, lle mae'r Gweinidog yn awdurdodi ei ddefnyddio fesul achos, fel argyfwng rhyfel Wcráin.

Bwriad y polisi yw caniatáu defnyddio prawf ELISA ar gyfer anifeiliaid anwes ffoaduriaid sy'n ffoi oherwydd trychinebau fel rhyfel, yn enwedig Wcráin, sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i Brydain Fawr heb y dystiolaeth berthnasol eu bod yn bodloni gofynion iechyd anifeiliaid, a'u rhoi mewn cwarantín.

Byddai angen prawf FAVN (Niwtraleiddio Gwrthgyrff Feirws Fflworoleuol) ar yr anifeiliaid hynny o hyd pe bai angen tystysgrif iechyd anifeiliaid arnynt i adael Prydain Fawr, neu os yw'r anifail yn methu prawf ELISA ac yn cael ei frechu wedyn.

Dim ond i ddefnyddio profion ELISA sydd wedi bodloni meini prawf dilysu pwyllgor safonau biolegol yr OIE y bydd yr awdurdodiad newydd yn berthnasol.

5. Beth mae'r offeryn yn ei wneud

Bydd yr offeryn hwn yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu defnyddio math ychwanegol o brawf gwrthgyrff (ELISA) i nodi a yw'r anifail wedi cael ei frechu'n flaenorol, a bydd y broses yn gyflymach na'r prawf gwrthgyrff a ganiateir ar hyn o bryd. Mae'r prawf gwrthgyrff presennol, y prawf Niwtraleiddio Gwrthgyrff Feirws Fflworoleuol (FAVN) yn cymryd hyd at bythefnos, ond bydd prosesu profion ELISA yn cymryd dau i dri diwrnod.

Caniateir i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ddefnyddio prawf ELISA, ar sail fesul achos, i benderfynu a yw anifail anwes ffoadur wedi cael ei frechu rhag y gynddaredd ac yn dal i gael ei amddiffyn gan y brechiad hwn. Bydd hyn yn golygu bod yr anifail mewn llai o berygl o ddal neu drosglwyddo'r gynddaredd, a gall symud drwy'r broses cwarantín heb gael ei ail-frechu'n ddiangen, gan leihau cyfanswm yr amser mewn cwarantín. Bydd defnyddio'r prawf cyflymach hwn yn arf hanfodol i gynnal llif y bobl sy'n ffoi o Wcráin gyda'u hanifeiliaid anwes. Nid yw defnyddio'r prawf hwn yn golygu y bydd yr anifeiliaid hyn yn rhydd i adael cwarantín ar ôl cwblhau'r prawf amgen yn llwyddiannus, ond

mae'n golygu y gallent dreulio llai o amser mewn cwarantin os ceir canlyniad positif, a bydd yn caniatáu inni asesu pa gyfleusterau cwarantin fyddai fwyaf priodol ar gyfer yr anifail hwnnw.

6. Ymgynghoriad

O ystyried natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni ledled Prydain, sy'n gyfrifol am reoli cwarantin, ac aelodau o Grŵp Craidd Clefydau Egsotig Prydain Fawr ar gyfer y Gynddaredd. Roedd yr ymgynghoreion hyn o blaid defnyddio prawf ELISA i leihau'r pwysau ar gyfleusterau cwarantin.

Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau, o dan arweiniad DEFRA, a bu Llywodraeth Cymru yn rhan o'r trafodaethau hynny:

- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Cymdeithas Milfeddygon Anifeiliaid Bach Prydain
- Cymdeithas Milfeddygon Prydain
- Yr Ymddiriedaeth Cŵn
- Grŵp y Sector Cŵn a Chathod
- Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
- Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyrid nad oedd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Roedd swyddogion o'r farn bod hon yn sefyllfa eithriadol a bod gweithredu fel mater o frys. Mae angen i'r gwelliannau fod ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU, ac maent am gyfnod dros dro. Mae DEFRA wedi gwneud rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2022, ac mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn gwneud rheoliadau cyfatebol, felly bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb ledled Prydain Fawr. Er bod gwahaniaethau o ran y dyddiad dod i rym, bydd y rhain yn cael eu rheoli'n weithredol h.y. dim ond ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym y dibynnir ar brawf ELISA i ganiatáu penderfyniadau ynghylch rheoli risg gan anifeiliaid sy'n dod i Gymru. Er bod disgrisiwn wrth i Weinidogion Cymru arfer pwerau statudol, gallai mabwysiadu dull lle nad yw defnyddio prawf ELISA yn cael ei gymeradwyo ledled Prydain adael anifeiliaid mewn cwarantin yn hwy nag sydd angen, wrth iddynt aros i gael y prawf, gan ddefnyddio capasiti cwarantin a gohirio'r broses gyfan ar gyfer pobl sy'n aros i gael trwyddedau.